OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 1706 (Cy.192)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2011

Gwnaed - - - - 11 Gorffennaf 2011
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 12 July 2011
Yn dod i rym - - 3 Awst 2011

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 1, 11(2)(d) ac 11(3) o Fesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008(**1**).

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2011, a deuant i rym ar 3 Awst 2011.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i wasanaethau a ddarperir fel rhan o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011(**2**).

Diwygio'r prif Reoliadau

2.—(1) Yn rheoliad 1(2) yn lle "1 Hydref 2011" rhodder "1 Ebrill 2012".

(2) Yn lle rheoliad 52(5) rhodder: "Ni fydd cwynion ynghylch gwasanaethau a ddarparwyd gan gyrff GIG Lloegr, cyrff GIG yr Alban neu gyrff GIG Gogledd Iwerddon, fel y'u diffinnir yn rheoliad 34, cyn 1 Ebrill 2012 yn cael eu hystyried o dan Ran 7 o'r Rheoliadau hyn.".

(**1**) 2008 mccc 1.
(**2**) O.S. 2011/704 (Cy.108).